**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MB/GT/0785/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

8 Mawrth 2014

Annwyl William,

Pan ysgrifennais atoch y tro diwethaf ym mis Hydref cytunais i ofyn i'r byrddau iechyd lleol anfon gwybodaeth ataf ynghylch amseroedd aros am ddiagnosis o anhwylderau yn y sbectrwm awtistig (ASD) mewn plant ac i wneud ymholiadau ynghylch cydymffurfio â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Yn dilyn hynny ysgrifennais at y byrddau iechyd ym mis Tachwedd yn gofyn am yr wybodaeth hon ar gyfer plant ac oedolion er mwyn rhoi'r darlun llawn imi o wasanaethau diagnostig ASD.

O'r ymatebion a ddaeth i lawn, mae'n amlwg bod y byrddau iechyd wedi sylweddoli bod angen gwneud rhagor i leihau'r amseroedd aros a bod y gwaith hwn yn flaenoriaeth uchel. Mewn sawl ardal, gan gynnwys ardal Hywel Dda, y gwnaethoch chi gyfeirio'n benodol ati, mae cynlluniau i wneud gwelliannau bellach ar waith a rhagwelir lleihad sylweddol yn yr amseroedd aros yno. Roeddwn hefyd yn falch o weld bod y byrddau iechyd wedi datblygu eu llwybrau diagnostig gan ystyried y canllawiau NICE perthnasol. Amgaeaf grynodeb llawnach o'r ymatebion a ddaeth i law. Ond yn fyr, dyma'r amseroedd aros i blant, o'u hatgyfeirio i'r asesiad cychwynnol, gan y byrddau iechyd:

| | |
|---|---|
| UHB Abertawe Bro Morgannwg | heb dderbyn yr wybodaeth hyd yn hyn |
| UHB Aneurin Bevan | 12 mis |
| UHB Betsi Cadwaladr | 6-26 wythnos am asesiad cychwynnol a 30 -90 wythnos i gwblhau'r asesiad |
| UHB Caerdydd a'r Fro | heb dderbyn yr wybodaeth hyd yn hyn |
| UHB Cwm Taf | Gogledd Cwm Taf 17 wythnos/ De Cwm Taf 52 wythnos |
| UHB Hywel Dda | Caerfyrddin a Cheredigion 2 flynedd<br>Sir Benfro 4 blynedd |
| UHB Powys | uchafswm o 13 wythnos, ar gyfartaledd 7 wythnos |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn eu hymatebion mae'r byrddau iechyd wedi tynnu sylw at y ffaith fod rheoli gwasanaethau diagnostig ASD i blant ac oedolion yn gymhleth iawn, gan fod y llwybr diagnostig yn golygu timau proffesiynol amlasiantaeth yn gweithio ar y cyd ar draws byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Mae llawer o broffesiynau gwahanol yn ymwneud â'r diagnosis i sicrhau bod y diagnosis cywir yn cael ei wneud, ac felly gall y llwybr gymryd amser hir iawn i'w gwblhau. Mae hefyd yn wir dweud bod yr amseroedd aros wedi gwaethygu oherwydd y cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau diagnosis yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae pwysau achosion brys eraill yn cystadlu am y gwasanaethau ac mae hynny'n effeithio ar y ddarpariaeth ASD.

Fe wnaethoch ofyn yn benodol am y cynnydd diweddaraf sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o ran rhoi ei gynllun gweithredu ar waith i ddelio ag amseroedd aros ASD. Dywedwyd wrthyf fod tîm clinigol penodol wedi'i greu a fydd yn canolbwyntio'n unig ar ddiagnosis ASD ac erbyn hyn cynhaliwyd proses recriwtio er mwyn llenwi'r rolau angenrheidiol. Mae ymrwymiad hefyd i ehangu'r arbenigedd ynghylch diagnosis ar draws y bwrdd iechyd fel bod dull clinigol cyson o weithredu'r llwybr diagnostig. Hefyd, cynhelir cynllunio strategol bellach gan y grŵp iechyd poblogaethau sydd newydd gael ei sefydlu ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu, ac mae'r strwythurau gweithredol sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun ASD yn eu lle.

Mae'n bwysig bod gwybodaeth dryloyw ar draws y byrddau iechyd ac fe welwch nad oes gennym ddata ar gyfer rhai ardaloedd. Byddaf yn ysgrifennu unwaith eto i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i ofyn am yr wybodaeth na chafwyd ganddynt hyd yma am wasanaethau diagnostig plant gan gynnwys amseroedd aros. Byddaf yn anfon yr wybodaeth hon ichi pan ddaw i law.

Efallai bod gan y pwyllgor diddordeb hefyd yn y cynnydd a wnaed gan wasanaethau diagnostig oedolion. Cydnabuwyd absenoldeb gwasanaethau oedolion gan ein Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ASD Oedolion, a thrwy weithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig rydym wedi cefnogi datblygu Rhwydwaith Cwnsela Cymru Gyfan ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig Cyn/Ôl Diagnostig i Oedolion. Mae hyn wedi dod â'r byrddau iechyd ynghyd i ddatblygu llwybr diagnostig clir, safonau diagnostig cytûn, a chodwyd ymwybyddiaeth a gwella arbenigedd clinigol drwy hyfforddiant. Rwy'n galonogol gyda'r cynnydd a gafwyd, sy'n enghraifft ragorol o Lywodraeth Cymru yn darparu cymorth â ffocws i ymdrin â bwlch yn y ddarpariaeth mewn gwasanaeth. Mae llawer mwy i'w wneud o hyd ac rwy'n bwriadu parhau â'r rhwydwaith i oedolion er mwyn sicrhau gwelliannau pellach. Ar hyn o bryd mae'r amseroedd aros, o'r atgyfeirio i'r asesiad cychwynnol, ar gyfer diagnosis ASD mewn oedolion fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| UHB Abertawe Bro Morgannwg | o fewn 12 wythnos |
| UHB Aneurin Bevan | 12 mis |
| UHB Betsi Cadwaladr | hyd at 40 wythnos (y cyfartaledd yw 16 wythnos). |
| UHB Caerdydd a'r Fro | o fewn 70 diwrnod |
| UHB Cwm Taf | yn llai na 14 wythnos |
| UHB Hywel Dda | hyd at 10 mis |
| UHB Powys | hyd at 16 mis (yn llai eto erbyn Mawrth 2014) |

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adnewyddu Cynllun Gweithredu Strategol ASD ac mae'r Grŵp Cynghori ASD yn rhoi cyngor imi ar y camau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, sy'n cynnwys mynediad amserol i wasanaethau diagnostig plant. Fel rhan o roi'r Cynllun Gweithredu ar ei newydd wedd ar waith byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i gytuno ar sut orau i dargedu'r adnoddau ar gyfer y gwelliannau mwyaf. Byddaf yn gwneud yn siŵr bod rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn unrhyw

drafodaeth yn y dyfodol. Cyn bo hir byddwn yn ymgynghori ar y Cynllun Gweithredu drafft hwn a byddwn yn annog aelodau o Grŵp Rhieni Sir Benfro i ymateb i'r ymgynghoriad gan y bydd eu barn nhw'n ein helpu ni i bennu'r cyfeiriad iawn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Yn gywir

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services